Newyddlen CCAUC

Rhifyn 5
Ebrill 2008

Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

CCAUC, Cwrt Linden, Y Berllan, Clos Ilex, Llanisien, Caerdydd, CF14 5DZ
www.hefcw.ac.uk info@hefcw.ac.uk 029 2076 1861

Yn y rhifyn hwn

1 Llythyr cylch gwaith CCAUC 2008-09
2 Cadeirydd newydd CCAUC
3 Ymfudiad graddedigion
4 Y Brifysgol Ryngwladol – golwg o Gymru
5 Cynllun Cydraddoldeb CCAUC – eich cyfle i wneud sylwadau
6 Datblygiadau cyfalaf
7 Targedau mewnbwn HCA Uwchradd
8 Sector addysg uwch gynaliadwy
9 Setliad grant gwaelodlin ar gyfer 2008/09
10 Cronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg
11 Cyrsiau gwyddor bwyd a thechnoleg newydd
12 Amdanom ni
13 Newidiadau yng nghynllun sefydliadol CCAUC

Croeso i rifyn diweddaraf newyddlen CCAUC.

Ynddo cewch wybodaeth am ddatblygiadau newydd a diweddar o fewn ein gwaith o gyllido addysg uwch yng Nghymru, gan gynnwys dolenni at eitemau newyddion a chylchlythyron. Yn ogystal, mae'n crynhoi rhai o'r penderfyniadau allweddol a wnaed yng nghyfarfodydd ein Cyngor.

- Cliciwch ar eitem yn y mynegai *(chwith)* i fynd at eitem yn y cylchlythyr.
- Cliciwch ar y cylchlythyr ei hun er mwyn mynd i'r wefan am fwy o wybodaeth.

Cysylltwch ag Emma Raczka ar 029 2068 2225 neu ar emma.raczka@hefcw.ac.uk os byddech am dderbyn y newyddlen ar ffurf arall, er enghraifft Word, testun mawr neu Braille.

Llythyr Cylch Gwaith CCAUC 2008-09

Derbyniom ein Llythyr Cylch Gwaith blynyddol oddi wrth Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Mawrth. Mae'r llythyr, ar gyfer y cyfnod o Ebrill 2008 hyd Fawrth 2009, yn rhoi arweiniad i ni ynglŷn â sut i rannu'r cyllid rydym yn ei gael gan y Cynulliad, ymhlith sefydliadau addysg uwch (AU) yng Nghymru a chyrsiau AU mewn colegau addysg bellach.

Gosodir y Llythyr Cylch Gwaith yn gadarn o fewn cyd-destun *Cymru'n Un,* y ddogfen a amlinellodd agenda llywodraeth y glymblaid yn y Cynulliad Cenedlaethol ar gyfer Cymru.

Noddir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
Sponsored by Welsh Assembly Government

Fel y nodwyd yn ein Llythyr Cylch Gwaith, uchelgais *Cymru'n Un* yw "trawsnewid Cymru i fod yn wlad ac yn genedl hyderus, lewyrchus ac iach, sy'n deg i bawb." Felly mae'n rhaid i addysg uwch gyfrannu at bob un o'r ymrwymiadau hyn a chwrdd ag anghenion myfyrwyr a chyflogwyr ill dau.

Mae ein Llythyr Cylch Gwaith yn tanlinellu penderfyniad y Cynulliad y dylai'r Sector AU yng Nghymru "barhau'n fywiog a chynaliadwy, gan ddangos effaith economaidd, cyflogadwyedd ei graddedigion, sail ymchwil a throsglwyddo gwybodaeth sydd wrth wraidd yr economi yng Nghymru."

Mae rhai o'r amcanion penodol ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod yn cynnwys:

- cefnogi datblygu NEWI i statws prifysgol llawn;
- sefydlu Academi Gwyddorau Cenedlaethol a Chanolfannau Ymchwil Cenedlaethol newydd;
- sicrhau bod AU yn cyfrannu at strategaeth cyfrwng Cymraeg cenedlaethol;
- ehangu cyfranogiad ar gyfer pob oedran yn addysg bellach ac uwch;
- rhoi Cymru yn y byd;
- cynorthwyo i wella amrywiaeth o fewn swyddi rheoli uwch a Chyrff Llywodraethol; a
- chyfrannu at Ddiwygio'r Sector Cyhoeddus.

← yn ôl

Rwy'n falch yr apwyntiwyd Roger Thomas i'r rôl allweddol hon yn arweinyddiaeth Addysg Uwch Cymru, sy'n hanfodol i ddyfodol economi a chymdeithas Cymru, drwy hyfforddi pobl fedrus, ymchwil a chyfraniad economaidd, cymdeithasol ac amgylcheddol."

Y Prif Weinidog,
Rhodri Morgan

Llywodraeth Cynulliad Cymru'n cyhoeddi ei chadeirydd newydd ar gyfer CCAUC

Cyhoeddwyd Roger Thomas OBE fel Cadeirydd newydd Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru.

Bydd Mr Thomas, cyn Gadeirydd Prifysgol Morgannwg a Chadeiryddion Addysg Uwch Cymru (CAUC), yn dechrau ar ei rôl newydd ar 5 Mai 2008.

Ar ei ymadawiad talwyd teyrnged i wasanaeth y Cadeirydd, Yr Athro Syr Roger Williams, i AU dros y 13 mlynedd diwethaf gan Weinidog Addysg y Cynulliad Jane Hutt, a'i gyfraniad at y sector addysg uwch yng Nghymru ar adeg o newidiadau sylweddol "gydag awdurdod, egni a sgiliau diplomataidd gwirioneddol".

← yn ôl

Ymfudiad graddedigion

Ar 1 Mawrth cawsom ein dyfynnu mewn erthygl newyddion am 'ddraen dawn' graddedigion o Gymru. Roedd yr erthygl yn dyfynnu adroddiad gan AYAU (Asiantaeth Ystadegau Addysg Uwch) a ddangosodd fod 'Cymru'n cadw llai o'i myfyrwyr gradd gyntaf nag unrhyw wlad arall yn y DU'.

Yn wir, gan gofio mai gwlad fechan yw Cymru a'i bod yn anochel yn denu myfyrwyr o'i chymydog Lloegr, sy'n fwy o ran maint, a'r system AU wahanol yn Yr Alban, rydym yn llawer mwy tebygol o werthuso Cymru ochr yn ochr ag ardal debyg yn Lloegr na gwlad arall yn y DU.

Fe wnaethom ymateb drwy ddweud bod Cymru mewn gwirionedd yn allforio graddedigion – ond ddim mwy felly nag ardaloedd eraill y DU (ar wahan i dde-ddwyrain Lloegr). Mae'r llif ar draws ffiniau'n un cymhleth, gyda niferoedd cymharol fawr o israddedigion yn dod o Loegr i astudio yng Nghymru. Fel unrhyw fyfyriwr, mae llawer ohonynt yn mynd yn ôl adref i ddechrau swyddi.

Yr allwedd i gadw myfyrwyr yw argaeledd swyddi tra medrus. Mae ein adroddiad Sefydliad Astudiaethau Cyflogaeth 2006, *Graddedigion Cymru a'u Swyddi,* a ddefnyddiodd yr un ffynhonnell data, yn dangos bod Cymru'n llwyddo i gadw graddedigion tra medrus pan roedd yn cynnig swyddi da, ac mewn gwirionedd roedd yn recriwtio graddedigion â chymwysterau da o Loegr a thu hwnt o dan amgylchiadau tebyg.

← yn ôl

A oeddech chi'n ymwybodol?

Mae graddedigion yng Nghymru'n ennill dros 46% yn fwy na'r rheiny sydd â chymwysterau at lefel A – ac mae'r mwyafrif llethol ohonynt yn gweithio mewn swyddi graddedig.

Y Brifysgol Ryngwladol – Golwg o Gymru

Llwyfannwyd cynhadledd lwyddiannus ar ryngwladoli gan CCAUC yng Nghaerdydd ar 27 Chwefror. Ymhlith y siaradwyr roedd Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau y Cynulliad, Prif Weithredwr y Cyngor Diwydiant ac Addysg Uwch, Cyfarwyddwr AU ac Addysg y DU ar gyfer Cyngor Prydain, sefydlydd y Grŵp Mewnwelediad Graddedigion Rhyngwladol *i-graduate*, Cyfarwyddwr Consortiwm Rhyngwladol Cymru, a nifer o rai eraill.

Mae angen i addysg uwch yng Nghymru osod ei hun yn briodol yn wyneb marchnad addysg uwch gynyddol gystadleuol a byd-eang. Mae sefydliadau nid yn unig yn gorfod annog myfyrwyr o dramor i ystyried Cymru fel man delfrydol - maent hefyd yn wynebu'r her o hyrwyddo manteision cyfnewidiadau addysgol ar gyfer myfyrwyr cartref/lleol.

Os na lwyddoch i fynychu'r digwyddiad, rydym wedi rhoi nifer o anerchiadau'r dydd ar ein gwefan.

← yn ôl

Cliciwch yma am wybodaeth ynglŷn â digwyddiadau sydd ar ddod
.

"…uchelgais Llywodraeth Cynulliad Cymru yw i Gymru fod yn ddewis cyntaf myfyrwyr ac academyddion talentog o Gymru, y DU a thu hwnt."

Jane Hutt, Gweinidog dros Blant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau

Cynllun Cydraddoldeb CCAUC – eich cyfle i wneud sylwadau

Y dyddiad cau ar gyfer yr ymgynghoriad hwn yw 25 Ebrill 2008.

Rydym yn gwahodd rhai cyfrannog ac aelodau'r cyhoedd i wneud sylwadau ar gopi drafft ein Cynllun Cydraddoldeb newydd.

Rydym yn cydnabod y manteision anferth y gellir eu cael o wella amrywiaeth yn y system addysg ac, yn enwedig, mewn addysg uwch.

Fel llawer o gyrff cyhoeddus eraill, drwy gyfrwng ein Cynllun Cydraddoldeb rydym yn cyfuno ein cynlluniau cydraddoldeb presennol a'n cynlluniau gweithredol ar gyfer anabledd, rhyw a hil. Yn ogystal, rydym yn darparu gwybodaeth ynglŷn â'n gwaith ym meysydd oedran, crefydd a chredo, cyfeiriadedd rhywiol a chydraddoldeb fwy cyffredinol, sy'n dangos ein bwriad i wneud mwy na dim ond cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth.

Drwy ymrwymo â holl elfennau cydraddoldeb yn y modd hwn, gobeithiwn leihau biwrocratiaeth, annog gweithrediad effeithiol - yn fewnol, ac o fewn y sector - ac, yn bennaf oll, sicrhau bod cydraddoldeb yn cael ei brif ffrydio'n gywir yn ein gweithgareddau craidd.

←yn ôl

A oeddech chi'n ymwybodol?

Mae 6% o ymgeiswyr israddedig llawn amser o Gymru yn dod o grwpiau ethnig lleiafrifol, sydd mewn gwirionedd yn cynnwys dim ond 2.1% o boblogaeth Cymru

Datblygiadau cyfalaf

*Gofynnir i sefydliadau addysg uwch ymateb i'r ddau gylchlythyr cyfalaf erbyn **30 Ebrill 2008.***

Yn ddiweddar, rhyddhawyd cylchlythyron gennym a gyhoeddodd:

- dyraniad cyllid cyfalaf atodol o £5.5 miliwn yn 2008 ar gyfer sefydliadau addysg uwch yng Nghymru. Dylai hyn fynd tuag at fynd i'r afael â'r diffyg mewn cyfalaf ar gyfer dysgu ac addysgu cyllid yn Sefydliadau AU Cymru a nododwyd a dylai gefnogi buddsoddiad yn y seilwaith mewnol a fydd yn cynorthwyo'r sector i ymateb yn effeithiol i Bolisi Gwyddoniaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer Cymru; a

- manylion ein cronfa buddsoddi cyfalaf ar gyfer y tair blynedd nesaf. Bydd y gronfa'n help i ddarparu'r seilwaith mewnol corfforol sydd ei angen i hyrwyddo Cynaliadwyedd tymor hir gweithgareddau dysgu, addysgu ac ymchwil sefydliadau, ac i hyrwyddo amgylchedd dysgu ac addysgu o ansawdd uchel a'r gallu i ymchwilio.

← yn ôl

Targedau derbyn ar gyfer hyfforddiant cychwynnol athrawon (HCA) uwchradd

Ar 15 Chwefror cyhoeddom y niferoedd targed ar gyfer cyrsiau hyfforddiant cychwynnol athrawon mewn sefydliadau addysg uwch yng Nghymru.

Wrth benderfynu dyraniadau sefydliadol ar gyfer y flwyddyn academaidd 2008/09, cymerom i ystyriaeth:

- perfformiad recriwtio'r sector a sefydliadau yn 2007/08 ac yn y blynyddoedd blaenorol;
- yr angen i gydbwyso pynciau ar draws y sector a chynnal argaeledd cyrsiau;
- ailddosbarthu Saesneg (gan gynnwys Drama) o fod yn faes pwnc blaenoriaethol; a
- thystiolaeth gan Estyn – sy'n archwilio HCA – ynghylch ansawdd yr hyfforddiant a ddarperir gan sefydliadau.

Cliciwch yma i weld y cylchlythyrau diweddaraf gan HEFCW.

Rydym wedi ymrwymo i weithio gyda sefydliadau i gwrdd â thargedau derbyn uwchradd y Cynulliad ar gyfer HCA, yn enwedig yn y pynciau prinder.

← yn ôl

Cynaliadwyedd yn y sector addysg uwch

Yn 2006, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru *Addysg ar gyfer Datblygu Cynaliadwy a Dinasyddiaeth Fyd-eang* – strategaeth ar gyfer gweithredu (ESDGC).

Rhoddwyd y cyfrifoldeb am gyflwyno'r strategaeth i Hyrwyddwr newydd ESDGC Cymru, a fydd yn gweithio gyda Phanel Ymgynghorol ESDGC Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Rydym yn gweithio gyda'r Hyrwyddwr i gyflwyno'r blaenoriaethau ar gyfer y sector addysg uwch.

*Gofynnir i sefydliadau addysg uwch ymateb erbyn **7 Tachwedd 2008.***

Dyma'r cefndir wrth i ni gyhoeddi dyraniad o £22,500 yr un er mwyn galluogi SAUau i wneud cynnydd o ran dau o'r gweithredoedd sector-perthnasol o fewn y cynllun gweithredu:

- SAUau i ymgymryd â "hunan-ddadansoddiad o ran lle yr addysgir ESDGC o fewn ei sefydliad" ac ymhle y gellir ei ymgorffori ymhellach; ac

- Anogir yr holl SAUau i ddatblygu system rheoli amgylcheddol addas - EMS - a mesuriadau cywerth sy'n ymdrin â'u holl weithrediadau, er mwyn lleihau eu defnydd cyffredinol o adnoddau i lefel gynaliadwy.

← yn ôl

Setliad grant gwaelodlin ar gyfer 2008/09

Gan ystyried goblygiadau'r Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr, cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ei cyllid terfynol yn hwyrach na'r arfer, ym mis Ionawr 2008. Roedd hyn yn golygu y bydd sefydliadau addysg uwch yng Nghymru'n derbyn cadarnhad o'u setliad grant cylchol o CCAUC ym mis Mai 2008 yn hytrach na mis Mawrth.

Mae sefydliadau eisoes yn ymwybodol o'n hagwedd gyffredinol at y grant cylchol, at bwrpasau cynllunio, ac o rai penderfyniadau dros dro ein Cyngor.

Byddwn yn darparu mwy o wybodaeth ar setliad grant cylchol 2008 ar gyfer AU yng Nghymru yn ein cylchlythyr nesaf.

← yn ôl

A oeddech chi'n ymwybodol?
Mae Cymru'n recriwtio canran uwch o fyfyrwyr ifanc israddedig amser llawn o ysgolion y wladwriaeth ac o ardaloedd 'cyfranogiad isel' na'r DU yn gyfan.

Cronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg

Mae'r Grŵp Sector Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg yn gyfrifol am ddatblygu a llywio darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn addysg uwch yng Nghymru.

Mae'r Grŵp eisoes wedi nodi nifer o feysydd lle y bydd sefydliadau AU yn cydweithio: yr amgylchedd/daearyddiaeth; diwydiannau creadigol/y cyfryngau; y gyfraith; addysg a hyfforddiant; y gwyddorau biolegol; chwaraeon a hamdden; a phynciau sy'n gysylltiedig ag iechyd.

Yn dilyn y datblygiad hwn, gallwn gadarnhau yn awr sut bydd ein cronfa darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn gweithredu o'r flwyddyn academaidd 2008/09:

- defnyddir yr arian yn strategol er mwyn datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg; a
- dylai datblygiadau gyfateb i'r Cynllun Datblygu Sector a dyrannir cyllid ar gyfer cynlluniau datblygu sefydliadol eglur.

Byddwn yn rhoi gwybod i benaethiaid sefydliadau am y trefniadau newydd unwaith y cadarnheir y grant cylchol ar gyfer 2008/09 yng Nghyfarfod y Cyngor ym mis Mai.

Cyfarfodydd y cyngor:
9 Mai 2008
4 Gorffennaf 2008
26 Medi 2008

← yn ôl

Nod CCAUC
Ein nod yw hyrwyddo addysg uwch yng Nghymru o'r radd flaenaf, er lles unigolion, cymdeithas a'r economi, yng Nghymru ac yn ehangach.

Cymru'n arwain y ffordd â chyrsiau gwyddor bwyd a thechnoleg newydd

Mae CCAUC wedi rhoi £250,000 tuag at ddatblygu cyrsiau trawsnewid newydd ar lefel Meistr mewn technoleg gwyddor bwyd.

Dywedodd Improve, y cyngor sgiliau sector bwyd a diodydd, bod y cyrsiau, a anelwyd at fyfyrwyr gwyddoniaeth, wedi eu cynllunio er mwyn hybu'r nifer o wyddonwyr bwyd cymwysedig sy'n gweithio yn niwydiant cynhyrchu bwyd Cymru, sydd werth £9 biliwn.

Cymru yw'r cyntaf o blith gwledydd y DU i gyflwyno cynllun o'r fath mewn ymateb i gwymp yn niferoedd y gwyddonwyr bwyd ym mhob ardal.

Mae'r cyrsiau'n cael eu datblygu diolch i bartneriaeth rhwng UWIC, Prifysgol Morgannwg, Prifysgol Aberystwyth, Coleg Menai, Canolfan Fwyd Cymru ac Improve.

"Mae cyflogwyr wedi bod yn gweddi allan am ffyrdd gweithredol i annog mwy o raddedigion gwyddoniaeth ifanc i'r diwydiant."

Huw Rees, rheolwr gweithrediadau Improve yng Nghymru.

← yn ôl

Amdanom ni

Mae CCAUC yn gyfrifol am gyllido addysg uwch yng Nghymru.

Rydym yn dosrannu arian a ddarperir gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i gefnogi addysg, ymchwil a gweithgareddau cysylltiedig mewn 11 sefydliad addysg uwch.

Rydym hefyd yn cyllido gweithgareddau addysgu'r Brifysgol Agored yng Nghymru a chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Nid ydym yn cyllido myfyrwyr yn uniongyrchol

← yn ôl

Yn ychwanegol at ein cyfrifoldebau cyllido, mae CCAUC yn cynnig cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllido, dyheadau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru

www.hefcw.ac.uk

I gael mwy o wybodaeth am unrhyw un o'r materion yn y newyddlen hon, neu unrhyw faterion eraill sy'n gysylltiedig ag addysg uwch yng Nghymru, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** neu ffonio **029 2076 1861.**

I **dynnu'ch enw oddi ar restr danysgrifio'r** newyddlen hon, anfonwch neges e-bost at **info@hefcw.ac.uk** gyda'r geiriau 'tynnu enw tanysgrifio i'r newyddlen'yn y blwch pwnc.

I gael cyngor am gyllid ac ariannu myfyrwyr yng Nghymru, ewch i **Cyllid Myfyrwyr Cymru.**

Mae newidiadau ar y gweill yn CCAUC…ond mae pethau'n mynd yn eu blaenau fel arfer

Mae mis Ebrill 2008 yn dod â strwythur sefydliadol newydd i CCAUC, er mwyn mynd i'r afael â'r newidiadau yn ein hamgylchedd gweithredu yn well.

Wrth i'n strwythur newydd syrthio i'w le, gobeithiwn y byddwn yn gallu ymrwymo'n well â phrifysgolion ynglŷn â chyfeiriad strategol sefydliadau, a chyda Llywodraeth y Cynulliad ynglŷn â dull mwy strategol o gyllido.

Mae'r prif newidiadau'n cynnwys:

- ffarwelio â dau o'n cydweithwyr, Pennaeth Ystadegau a TG, Frances Good, a Phennaeth AD a Datblygu Sefydliadol, Shirley McKay, a diolchwn yn fawr iddynt am eu hymroddiad a'u llwyddiant dros nifer o flynyddoedd; a
- chreu dwy gyfarwyddiaeth, o dan Richard Hirst (Cyfarwyddwr Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) a David Blaney (Cyfarwyddwr Datblygu Strategol).

Cyfarwyddiaeth Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol

- O dan Bethan Owen, mae tîm Llywodraethu, Arweinyddiaeth a Gwybodaeth newydd sy'n ymwneud a sicrwydd sefydliadol (gan gynnwys sicrwydd ariannol, sicrwydd risg, llywodraethu ac arweinyddiaeth) a materion cydraddoldeb, ynghyd ag ystadegau, systemau gwybodaeth, ysgrifenyddiaeth y Cyngor a chyfathrebu.
- Mae Nick Williams yn arwain tîm newydd sy'n rheoli adnoddau mewnol CCAUC, i drafod taliadau sefydliadol, cyllid mewnol CCAUC, AD a chyfleusterau.
- Mae Chris Cowburn yn parhau i fod yn gyfrifol am faterion ystadau ac am gaffael.

Cyfarwyddiaeth Datblygu Strategol

- Mae Celia Hunt yn arwain tîm newydd sy'n ymwneud â chyllido strategol (gan gynnwys ailgyflunio a chydweithio), cynllunio strategol sefydliadol, cyllido craidd, cynllunio corfforaethol CCAUC, a sicrwydd ansawdd a gwelliant, ynghyd â HCA a materion cyfrwng Cymraeg.
- Roger Carter yw pennaeth y tîm newydd sy'n ymwneud ag ymchwil a pholisi economaidd, polisi cymdeithasol (gan gynnwys ehangu mynediad), a gweithgareddau Ewropeaidd a rhyngwladol, yn ogystal â GO Wales.

Byddwn yn rhoi siart sefydliadol manwl ar ein gwefan cyn gynted ag y bydd y fframwaith newydd wedi sefydlu.

Daw'r manylion ynglŷn â chyfrifoldebau staff yn gliriach drwy fannau cyswllt a nodir mewn cylchlythyron a chyfathrebiadau eraill. Yn y cyfamser, a wnewch chi barhau i ddefnyddio cysylltiadau sefydledig os gwelwch yn dda.

← yn ôl

Byddwch yn amyneddgar os gwelwch yn dda wrth i ni ymgynefino â'r fframwaith newydd yn ystod yr wythnosau nesaf